
IS - DDEDDFAU MODEL - SET 6

**[Enw'r Cyngor]
IS-DDEDDFAU AR GYFER GLAN Y MÔR
TREFN YR IS-DDEDDFAU**

1. Dehongli
2. [Cymhwyso]
3. [Cymhwyso]
4. [Cymhwyso]
5. Pysgota
6. Llinynnau tywod
7. Cloddio am abwyd [- gwahardd cloddio am abwyd mewn ardal gyfyngedig]
8. Cloddio am abwyd [- rheoleiddio cloddio masnachol am abwyd]
9. Marchogaeth [- rheoleiddio torri ceffylau i mewn, etc yn gyffredinol]
10. Marchogaeth [-rheoleiddio'r amserau pryd y mae caniatâd i dorri ceffylau i mewn, etc]
11. Sioeau a pherfformiadau cyhoeddus
12. Chwaraeon [- rheoleiddio gemau neu chwaraeon yn gyffredinol]
13. Chwaraeon [- caniatáu gemau neu chwaraeon mewn mannau dynodedig yn unig]
14. Masnachu
15. Tanau
16. Partïon
17. Awyrennau
18. Barcutiaid a bygis barcud
19. Codi adeiladweithiau heb awdurdod
20. Symud arwyddion ac adeiladweithiau i ffwrdd
21. Ymyrryd ag offer arbed bywyd
22. Rhwystro
23. Arbedion [- ar gyfer gweithredoedd wedi eu gwneud gan swyddogion Cyngor a chontractwyr]
24. Arbedion [- diogelu hawliau'r Goron [a, phan fo hynny yn berthnasol, Dugaeth Cernyw]]
25. Y Gosb
26. Dirymu is-ddeddfau

[YR ATODLEN - ardaloedd o lan y môr y mae'r is-ddeddfau hyn yn gymwys iddynt]

Is-ddeddfau wedi eu gwneud o dan adran 82 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 gan [rhowch enw'r Cyngor] er mwyn atal perygl, rhwystr, neu aflonyddwch i bobl sy'n defnyddio glan y môr.

Dehongli

1. Yn yr is-ddeddfau hyn:

ystyr "y Cyngor" yw [rhowch enw'r Cyngor] ;

ystyr "glan y môr" yw'r traeth a'r blaendraeth cyfan gan gynnwys pob gris, ramp, llwybr a glanfa sydd i'w cael o bryd i'w gilydd [uwchlaw lefel marc distyll y llanw canolig / rhwng lefel marc distyll y llanw canolig a'r promenâd];

ystyr "man cyfyngedig" yw'r rhannau o lan y môr rhwng [rhowch fanylion y tirnod] a [rhowch fanylion y tirnod] sydd uwchlaw'r marc distyll;

ystyr "man dynodedig" yw ardal o lan y môr sy'n cael ei neilltuo at bwrpas penodol. Caiff yr ardal a'r pwrpas eu dangos drwy hysbysiadau a gaiff eu rhoi mewn lle amlwg.

Cymhwys

Dim ond UN o is-ddeddfau model 2, 3 a 4 yn unig y dylai cyngorau fabwysiadu Is-ddeddfau sydd i fod yn gymwys i bob glan y môr yn yr ardal

2. Mae'r is-ddeddfau hyn yn gymwys i bob ardal o lan y môr sy'n cyffinio â [Sir/Bwrdeistref Sirol] rhowch enw ardal yr awdurdod lleol.

Is-ddeddfau sydd i fod yn gymwys i un traeth neu un rhan o draeth

3. Mae'r is-ddeddfau hyn yn gymwys i rhowch enw neu ddisgrifiad o draeth/ardal o lan y môr rhwng disgrifiwch yr ardal drwy gyfeirio at dirnodau ar rhowch enw neu ddisgrifiad o'r traeth.

Is-ddeddfau sydd i fod yn gymwys i amryw o ardaloedd o lan y môr

4. Mae'r is-ddeddfau hyn yn gymwys i'r ardaloedd o lan y môr sy'n cael eu rhestru yn yr Atodlen.

Pysgota

5. Ni chaiff neb bysgota o lan y môr mewn ffordd sy'n achosi perygl, rhwystr neu aflonyddwch i unrhyw un a fyddai'n defnyddio glan y môr.

Llinynnau tywod

6. Rhaid peidio â gosod llinynnau tywod mewn lle sy'n debygol o achosi niwed i unrhyw un sy'n defnyddio glan y môr, a rhaid i bob llinyn tywod gael ei farcio'n amlwg.

Cloddio am abwyd

Gwahardd cloddio am abwyd mewn man cyfyngedig

7. Ni chaiff neb gloddio am abwyd pysgota yn y man cyfyngedig.

Rheoleiddio cloddio masnachol am abwyd

8. Ni chaiff neb gloddio am abwyd pysgota at bwrpasau masnachol oni fydd gyda chaniatâd y Cyngor.

Marchogaeth

Rheoleiddio torri ceffylau i mewn, etc yn gyffredinol

9. Ni chaiff neb dorri ceffyl nac unrhyw anifail arall i mewn, na'i farchogaeth na'i yrru ar lan y môr mewn ffordd sy'n achosi perygl neu aflonyddwch i unrhyw un arall.

Rheoleiddio amseroedd pryd y caniateir torri ceffyl i mewn, etc

10. Ni chaiff neb dorri ceffyl nac unrhyw anifail arall i mewn, na'i farchogaeth na'i yrru ar lan y môr ar [*rhowch y dyddiau*] a rhwng [*rhowch yr amseroedd*] o'r gloch.

Sioeau a pherfformiadau cyhoeddus

11. (1) Ni chaiff neb draddodi darlith, pregeth nac araith na pherfformio unrhyw gerddoriaeth, na chynnal unrhyw adloniant yn unrhyw le ond mewn man dynodedig ar gyfer perfformiadau o'r fath.
(2) Ni chaiff neb ddefnyddio unrhyw fan dynodedig ar gyfer perfformiadau mewn ffordd sy'n achosi rhwystr nac aflonyddwch i unrhyw un sy'n ei ddefnyddio at unrhyw bwrpas y mae wedi cael ei neilltuo ar ei gyfer.

Chwaraeon

Rheoleiddio gemau neu chwaraeon yn gyffredinol

12. Ni chaiff neb chwarae na chymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon na gêm mewn ffordd sy'n achosi perygl, rhwystr nac aflonyddwch i unrhyw un ar lan y môr.

Caniatáu gemau neu chwaraeon mewn mannau dynodedig yn unig

13. (1) Pan fydd y Cyngor wedi neilltuo man dynodedig ar gyfer gêm neu chwaraeon penodol, ni chaiff neb gymryd rhan yn y gêm neu'r chwaraeon yn unrhyw le ond y man dynodedig.
- (2) Ni chaiff neb rwystro unrhyw un rhag defnyddio man dynodedig at y pwrpas y mae wedi cael ei neilltuo ar ei gyfer.

Masnachu

14. Ni chaiff neb—
- (a) gwerthu na phedlera unrhyw nwydd nac unrhyw fwyd na diod;
- (b) hysbysebu na cheisio cwstwm ar gyfer unrhyw wasanaeth; na
- (c) dosbarthu taflenni, cylchlythyrau na hysbysebion,
- mewn ffordd sy'n achosi rhwystr neu aflonyddwch i unrhyw un ar lan y môr.

Tanau

15. (1) Ni chaiff neb gynnu tân, na gosod, taflu na gollwng matsien wedi ei thanio nac unrhyw beth sy'n debygol o gynnu tân ar lan y môr.
- (2) Nid yw is-ddeddf 15(1) yn gymwys—
- (i) mewn man dynodedig ar gyfer barbeciws, i gynnu na defnyddio stof wersylla neu farbeciw sydd ei wneud yn iawn mewn ffordd sy'n ddiogel yn erbyn difrod neu berygl; na
- (ii) i gynnu tân ar lan y môr gyda chaniatâd y Cyngor.

Partïon

16. (1) Ni chaiff neb gynnal parti ar lan y môr heb ganiatâd y Cyngor.
- (2) Yn is-ddeddf 16(1), ystyr "parti" yw digwyddiad sy'n cynnwys 15 neu ragor o bobl lle y bydd cerddoriaeth yn cael ei chwarae.

Awyrennau

17. Os na fydd argyfwng, ni chaiff neb gychwyn awyren nac achosi iddi esgyn i'r awyr na glanio ar unrhyw ran o lan y môr heblaw am unrhyw ran ohono-
- (a) y mae'r Cyngor wedi ei dynodi fel lle i gychwyn awyren, achosi iddi esgyn i'r awyr neu lanio; a
- (b) y mae'r Awdurdod Hedfan Sifil wedi ei thrwyddedu fel maes glanio.

Barcutiaid a bygis barcud

18. Ni chaiff neb hedfan unrhyw farcud na gyrru unrhyw gerbyd sy'n symud o dan bŵer barcud ar lan y môr mewn ffordd sy'n achosi perygl, niwsans neu aflonyddwch i bobl eraill ar lan y môr.

Codi adeiladwaith heb awdurdod

19. (1) Ni chaiff neb godi na gosod ar lan y môr unrhyw fythau, pebyll, siediau, stondinau, sioeau, arddangosfeydd, siglenni, rowndabowts [*chwirligwganod/rownd-a-rownds*], nac unrhyw adeiladwaith arall, boed yn sefydlog neu'n symudol, os nad yw mewn man dynodedig ar gyfer yr adeiladwaith hwnnw.
- (2) Nid yw is-ddeddf 19(1) yn gymwys i'r defnydd o atalfeydd gwynt personol.

Symud arwyddion ac adeiladweithiau i ffwrdd

20. Ni chaiff neb heb esgus rhesymol, symud i ffwrdd o lan y môr na newid lle unrhyw rwystr, postyn neu sedd nac unrhyw ran o unrhyw adeiladwaith neu addurn neu unrhyw hysbysiad neu faner sy'n cael ei arddangos gan neu ar ran y Cyngor neu unrhyw awdurdod cymwys arall.

Ymyrryd ag offer arbed bywyd

21. Ni chaiff neb heblaw mewn achos brys, symud i ffwrdd o lan y môr na newid lle unrhyw offer arbed bywyd sy'n cael ei ddarparu gan neu ar ran y Cyngor neu unrhyw awdurdod cymwys arall.

Rhwystro

22. Ni chaiff neb wneud y canlynol ar lan y môr —
- (a) rhwystro unrhyw un swyddogion y Cyngor wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn briodol;
- (b) rhwystro unrhyw un sy'n cyflawni gweithred sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni unrhyw gontract â'r Cyngor yn briodol.

Arbedion

Arbedion ar gyfer gweithredoedd sy'n cael eu cyflawni gan swyddogion y Cyngor a chontractwyr

23. Nid yw'n dramgwydd o dan yr is-ddeddfau hyn i unrhyw un o swyddogion y Cyngor wneud unrhyw beth sy'n angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswydd yn briodol nac i unrhyw un sy'n gweithredu'n unol â chontract â'r Cyngor wneud unrhyw beth sy'n angenrheidiol i gyflawni'r contract hwnnw'n briodol.

Arbedion i ddiogelu hawliau'r Goron a, phan fo hynny'n berthnasol, Dugaeth Cernyw

24. Ni fydd dim yn yr is-ddeddfau hyn na dim sy'n cael ei wneud odanynt yn -
- (a) gweithredu fel gweithred o roi gan neu ar ran y Goron [*neu Ddugaeth Cernyw*] fel perchennog y blaendraeth o dan y marc penllanw unrhyw ystâd na buddiant yn y blaendraeth na hawl drosto neu unrhyw ran ohono;
 - (b) rhagfarnu hawliau a buddiannau'r Goron [*neu Ddugaeth Cernyw*];
 - (c) atal unrhyw hawliau cyhoeddus rhag cael eu harfer; neu
 - (ch) effeithio ar unrhyw hawl, pŵer neu fraint y caiff unrhyw un ei arfer yn y blaendraeth, drosto ac mewn cysylltiad ag ef.

Y Gosb

25. Mae unrhyw un sy'n tramgwyddo yn erbyn unrhyw un o'r is-ddeddfau hyn yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

Dirymu is-ddeddfau

26. Mae'r is-ddeddfau ar gyfer glan y môr a gafodd eu gwneud gan *rhowch enw'r Cyngor a wnaeth yr is-ddeddfau blaenorol ar rhowch y dyddiad, y mis a'r flwyddyn* ac a gafodd eu cadarnhau ar *rhowch y dyddiad, y mis a'r flwyddyn* gan *rhowch enw'r awdurdod cadarnhau* wedi eu dirymu drwy hynny.

YR ATODLEN

[ARDALOEDD O LAN Y MÔR Y MAE'R IS-DDEDDFAU YN GYMWYS IDDYNT]